

Strategaeth Datgomisiynu Cefnogi Pobl Sir Ddinbych

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



<u>Dyddiad</u>	<u>Ebrill 2015</u>
<u>Fersiwn</u>	<u>1.0</u>
<u>Adolygu</u>	<u>Ebrill 2017</u>
<u>Statws</u>	<u>Terfynol</u>

1. Beth yw datgomisiynu?

Rydym yn diffinio Datgomisiynu fel tynnu gwasanaeth mewnol neu allanol a threfniadau ariannu'n ôl, neu eu cau, drwy roi'r gorau i daliadau grantiau neu ddod â chontract neu gytundeb lefel gwasanaeth i ben.

2. Cefndir

Mae datgomisiynu'n rhan o'r cylch comisiynu a dylid ei wneud mewn ffordd wedi'i chynllunio i sicrhau bod y gwasanaethau mwyaf effeithiol yn cael eu rhoi, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r strategaeth hon wedi cael ei datblygu yng nghyd-destun gostyngiadau blwyddyn ar flwyddyn i gyllideb Cefnogi Pobl Sir Ddinbych. Gwnaeth newidiadau i'r fformiwla dosbarthu cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl yn 2012 arwain at doriadau bwriedig o 20% i Gefnogi Pobl Sir Ddinbych dros 5 mlynedd rhwng 2012-13 a 2016-17. Mae toriadau ychwanegol i bob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru wedi arwain at doriadau pellach i Gefnogi Pobl, y mae disgwyl iddynt barhau yn 2017-18.

Cafodd y toriadau hyn eu rheoli yn 2012-13, 2013-14, a 2014-15 heb effeithio'n sylweddol ar lefelau gwasanaeth, gyda'r dyraniad grant cyfredol yn £6.1 miliwn ar gyfer 2014-15. Mae toriadau 2015-16 wedi cael eu cadarnhau yn 10.4% yn ddiweddar, ac mae trafodaethau gyda nifer o ddarparwyr wedi bod yn hanfodol i fodloni'r arbedion gofynnol hynny. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld toriadau pellach ar lefel debyg ar gyfer 2016/17 a thoriadau pellach eto yn 2017/18.

Gyda hyn mewn golwg, bydd angen i Gefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych ddatgomisiynu gwasanaethau sydd wedi eu pennu'n flaenorol yn berthnasol yn strategol o 2016-17 ymlaen.

3. Dull Cyngo Sir Ddinbych

Mae Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud ymrwymiad i reoli gostyngiadau grant mewn ffordd strategol. Ni fydd y toriadau'n cael eu rheoli trwy gwtogi ar gyllidebau fesul tipyn yn unig.

Mae Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i wneud y penderfyniadau anodd hyn mewn dull ymgynghorol a thryloyw a fydd yn cynnwys ystyried barn darparwyr yr effeithir arnynt, Defnyddwyr Gwasanaeth a budd-ddeiliaid.

Bydd Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych yn ymdrechu i ddarparu mwy am lai, ond cydnabyddir bod y galw yn aml yn fwy na'r ddarpariaeth. Byddwn yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaethau cefnogi sy'n gysylltiedig â thai yn cael eu cynnal ar gyfer y bobl fwyaf diamddiffyn ar draws pob grŵp darparu gwasanaeth.

Bydd Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych yn sicrhau bod y prosiectau cefnogi yr ydym yn parhau i'w comisiynu yn darparu cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai sy'n ddiogel, o ansawdd uchel, yn arloesol ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Wrth wneud penderfyniadau datgomisiynu, bydd Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych ynghyd â Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Sir Ddinbych yn ystyried y canlynol;

3.1. A yw'r prosiect yn darparu Cefnogaeth sy'n Gysylltiedig â Thai?

Wrth benderfynu a yw prosiect cefnogi'n darparu cefnogaeth gymwys, cyfeirir at Ganllawiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl cyfredol, fel yr isod;

“Mae'r gefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai yn cynorthwyo pobl ddiameddiffyn i ddatblygu neu gynnal y sgiliau a'r hyder sy'n hanfodol i fyw mor annibynnol â phosibl. Yn greiddiol i hwn mae tai, atal digartrefedd neu bobl sy'n byw mewn lleoliadau sefydliadol amhriodol. Gellir cynnig cefnogaeth i unrhyw un sy'n gymwys, waeth beth yw eu daliadaeth.” (Canllawiau Rhaglen Cefnogi Pobl 2013, 3.4, T22)

“Dylai gwasanaethau Cefnogi Pobl alluogi, a datblygu annibyniaeth person, h.y. 'gwneud gyda' yn wahanol i 'gwneud ar ran'. Dylai'r gwasanaeth ganolbwyntio ar annog a chefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i arfer dewis personol a hunan-benderfyniad.” (Canllawiau Rhaglen Cefnogi Pobl 2013, 3.8, T23)

“Y cwestiynau i'w hystyried wrth gomisiynu, adolygu neu nodi a fydd gwasanaeth yn dod o fewn cylch gwaith Grant Rhaglen Cefnogi Pobl yw:

- A allai'r gefnogaeth a gynigir atal y person rhag bod mewn perygl o golli eu llety neu symud i ofal llai annibynnol neu leoliad sefydliadol?
- A allai'r gefnogaeth a gynigir alluogi person i ddatblygu eu hannibyniaeth, yn dilyn cyfnod yn byw mewn lleoliad sefydliadol neu mewn lleoliadau llai dibynnol?
- A yw'r gefnogaeth yn ymdrin â meysydd allweddol sy'n galluogi unigolyn i fyw'n annibynnol?” (Canllawiau Rhaglen Cefnogi Pobl 2013, 3.12, T23)

3.2. A yw'r prosiect yn cefnogi'r Agenda Ymyrraeth Gynnar fel yr amlinellir yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Hefyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cyd-fynd â darpariaeth gwasanaethau statudol, ac yn cyfrannu ati. Rydym yn teimlo y gallwn wneud hyn orau trwy sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu comisiynu yn cyfrannu at yr agenda ymyrraeth gynnar fel yr amlinellir yn y deddfau uchod, yn ogystal â'r dull Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych a Chynllun Lles Sir Ddinbych.

Deddf Tai (Cymru) 2014

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn galluogi pobl i gael cyngor a chymorth ar gam cynharach yn sgil ymestyn y diffiniad o 'dan fygythiad o ddigartrefedd' o 28 diwrnod i 56 diwrnod. Bydd y rhai sy'n ddigartref hefyd yn ddyledus i gael cefnogaeth gan yr awdurdod lleol i sicrhau cartref waeth beth yw'r amgylchiadau sy'n arwain at eu digartrefedd.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau ataliol yn seiliedig ar anghenion y boblogaeth leol, a all gynnwys hyrwyddo datblygiad mentrau cymdeithasol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a gwasanaethau trydydd sector. Dylai asesiadau o anghenion unigol ystyried a allai gwasanaethau ataliol gyfrannu at gwrdd ag unrhyw un o'r anghenion a nodwyd.

Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych a'r Cynllun Lles:

Mae dull Cyngor Sir Ddinbych, Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych, yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar trwy ddarparu gwybodaeth a lefel isel o wasanaethau ataliol sy'n hygyrch o fewn y gymuned - mae hyn yn cynnwys yr Un Pwynt Mynediad, un rhif ffôn ar gyfer mynediad i gyngor, asesiad, gwybodaeth a gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol.

Mae Cynllun Integredig Sengl Sir Ddinbych, y Cynllun Lles, yn canolbwyntio ar gynnal a gwneud y gorau o annibyniaeth a gwydnwch ymhlith unigolion a chymunedau ehangach o fewn y Sir, er mwyn i bobl allu cynnal eu hunain ac eraill o'u cwmpas yn fwy effeithiol pan fyddant yn wynebu heriau.

Wrth symud ymlaen, disgwylir y bydd angen i brosiectau ddangos sut y maent yn darparu gwasanaethau ataliol, gan gynnwys sut y maent yn cydweithio a chyd-fynd â gwasanaethau statudol a gwasanaeth eraill i wneud hynny.

3.3. A yw'r prosiect yn cyflawni Dyletswydd Statudol?

Wrth i ni symud ymlaen gyda llai o gyllideb, bydd angen i Gefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych ymchwilio i weld a yw prosiectau unigol yn darparu cefnogaeth sydd naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol gyflawni'r ddyletswydd statudol.

Lle nodir bod prosiect yn cyflawni dyletswydd statudol, bydd tîm Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried tyngu'n ôl neu leihau cyllid.

Mae Canllawiau Rhaglen Cefnogi Pobl yn datgan;

“Ni ddylai'r SPPG ariannu gwasanaethau sy'n ddyletswydd statudol y mae'n ofynnol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol eu hariannu o dan ddeddfwriaeth gofal yn y gymuned.” (Canllawiau Rhaglen Cefnogi Pobl 2013, 3.17, T24)

3.4. A allai'r prosiect gael ei ariannu o ffrwd ariannu arall?

Wrth i ni symud ymlaen gyda llai o gyllideb, bydd Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried a allai prosiectau unigol gael eu hariannu drwy ffrydiau ariannu eraill – h.y. trwy lechyd, Diogelwch Cymunedol.

Lle nodir y gellir ariannu prosiect o ffrwd ariannu arall, bydd tîm Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried tynnu'n ôl neu leihau'r cyllid.

3.5. Pa ddarpariaeth debyg sy'n bodoli?

Fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ynghylch datgomisiynu gwasanaethau, bydd Cefnogi Pobl Sir Ddinbych yn ystyried pa ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes. Gallai hyn naill ai fod yn brosiectau cefnogi eraill a gyflwynir drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl yn lleol, yn is-ranbarthol neu'n rhanbarthol, neu wasanaethau tebyg a ddarperir drwy gyfrwng ffrydiau ariannu eraill, gwasanaethau statudol neu sefydliadau trydydd sector. Bydd cynnal darpariaeth gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf diamddiffyn ar flaen y gad o ran yr ystyriaethau hyn.

Lle nodir cefnogaeth debyg, bydd Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych yn ystyried tynnu'n ôl neu leihau'r cyllid.

3.6. Pa mor dda mae'r prosiectau yn darparu'r gwasanaethau maent yn eu rhoi?

Bydd penderfyniadau datgomisiynu am brosiect ond yn cael ei wneud unwaith y bydd wedi cael ei adolygu. Mae pecyn adolygiad cenedlaethol wedi'i greu a'i ddarparu i'r holl Awdurdodau Lleol ledled Cymru. Mae'r broses adolygu yn edrych ar berthnasedd strategol, effeithiolrwydd cost, cymhwysedd, ansawdd a gwaith partneriaeth gwasanaeth. Lle nodir bod prosiect yn tanberfformio neu'n dangos gwerth gwael am arian, ond yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ariannu, byddwn yn ceisio ailfodelu ac ailgomisiynu yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contract Cyngor Sir Ddinbych, gallai hyn gynnwys cynnal proses dendro gystadleuol.

Wrth wneud penderfyniadau ynghylch datgomisiynu prosiectau, cyfeirir hefyd at fatrics Blaenoriaeth Strategol i Ariannu Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r Flaenoriaeth Strategol i Ariannu yn ystyried nifer o ddangosyddion sy'n asesu perfformiad a pherthnasedd strategol, sy'n cael eu cyfuno i gynhyrchu sgôr blaenoriaeth cyffredinol ar gyfer pob prosiect. Cafodd y Flaenoriaeth Strategol i Ariannu ei datblygu fel un rhan o agwedd strategol wrth reoli'r toriadau i Gefnogi Pobl; felly, nid yw'r sgôr prosiectau unigol yn cael ei ystyried ar wahân ond yn cael ei ystyried fel rhan o drafodaethau ehangach.

4. Proses

Bydd Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych yn ymdrechu i gynnal y prosesau canlynol wrth wneud penderfyniadau datgomisiynu

- 4.1. Lle bo'n bosibl, bydd cynigion datgomisiynu yn ymddangos yn y Cynllun Comisiynu Lleol. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai cyfleoedd godi rhwng cynlluniau ac ni ddylid eu hanwybyddu dim ond oherwydd nad oeddent wedi'u nodi yn y Cynllun Comisiynu Lleol.
- 4.2. Er mwyn cynnal trywydd archwilio clir ac i sicrhau tryloywder, bydd adroddiad datgomisiynu yn cael ei gwblhau ar gyfer pob prosiect a ddatgomisiynir (atodiad 1)
- 4.3. Bydd Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei gwblhau ar gyfer pob prosiect sy'n cael ei ystyried ar gyfer datgomisiynu.

Atodiad 1

Adroddiad ar gyfer datgomisiynu Gwasanaethau Cefnogi Pobl	
Enw'r Prosiect	
Darparwr	
Dyddiad	
Enw'r Contract a'r Swyddog Adolygu	

Manylion y rheswm cychwynnol pam gafodd y prosiect hwn ei ystyried ar gyfer datgomisiynu - cyfeiriwch at strategaeth ddatgomisiynu Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ddinbych.

A oedd y cynnig hwn yn ymddangos yng Nghynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl?

Manylion cynnig y Cynllun Comisiynu Lleol.

<p>Newidiadau i gynnig y Cynllun Comisiynu Lleol.</p>	
<p>A yw'r gwasanaeth wedi cael ei adolygu?</p>	
<p>Dyddiad yr Adolygiad:</p>	
<p>Canfyddiadau Allweddol yr Adolygiad.</p>	
<p>Canfyddiadau o Flaenoriaeth Strategol i Ariannu</p>	
<p>Sgôr Blaenoriaeth Strategol i Ariannu.</p>	
<p>Rhestrwch ffactorau a effeithiodd ar y sgôr – h.y. dim data, prosiect newydd ac ati</p>	

A yw'r cynnig hwn wedi mynd i SPPG?	
Dyddiad cyflwyno i SPPG.	
Sylwadau gan SPPG.	
A ymgynghorwyd â Defnyddwyr Gwasanaeth?	
Sut, pryd a ble?	
A ymgynghorwyd â rhanddeiliaid?	
Manylion darparwr gwasanaet h.	

<p>Gwasanaet hau Cysylltiedi g a allai gael eu heffeithio - mewnol ac allanol.</p>	
<p>Manylion 12 mis o Atgyfeirwy r o Lwybr Sengl.</p>	
<p>Aelod/au'r Cyngor Sir.</p>	
<p>Grwpiau / elusennau â diddordeb.</p>	
<p>A yw'r effaith ranbarthol wedi cael ei hystyried?</p>	
<p>A allai'r cynnig hwn gael unrhyw oblygiadau ar gyfer rhanbarth ehangach Gogledd Cymru?</p>	

<p>A yw'r cynnig hwn wedi'i gyflwyno i'r RCC? (Yn berthnasol pan fydd y cynnig yn newid y categori cyfanswm gwariant o fwy na 10%) a / neu.</p>	<p>Dyddiad a sylwadau</p>
<p>A yw'r cynnig hwn wedi'i gyflwyno i'r NWSPIN?</p>	<p>Dyddiad a sylwadau</p>
<p>A oes unrhyw gynlluniau cysylltiedig a fydd yn lleihau effaith datgomisiynu'r gwasanaeth hwn? h.y. mwy o allu mewn prosiect / datblygiad arall o brosiect / datblygu rhanbarthol o wasanaeth nad ydyw'n Cefnogi Pobl</p>	
<p>Manylion.</p>	
<p>A yw'r cynnig hwn wedi'i ystyried ochr yn ochr â phenderfyniadau neu gynigion eraill i ddatgomisiynu gwasanaethau er mwyn asesu'r effaith gynyddol? A fydd hyn yn cael effaith anghymesur ar unrhyw grŵp cleientiaid arbennig sydd heb gael ei gefnogi gan dueddiadau data?</p>	

<p>Dylid ystyried prosiectau neu wasanaethau a ddatgomisiwyd o fewn y 12 mis diwethaf, neu'r rhai y bwriedir eu datgomisiynu yn y 6 mis nesaf.</p>	
<p>A oes EQIA wedi'i wneud mewn perthynas â datgomisiynu'r gwasanaeth hwn?</p>	
<p>Dyddiad cwblhau.</p>	
<p>Enw'r swyddog sy'n cwblhau hyn.</p>	
<p>A oes unrhyw gamau gweithredu a nodwyd i liniaru effaith datgomisiynu'r gwasanaeth hwn?</p>	
<p>Manylion y camau gweithredu.</p>	

Cofnod O'r Camau Gweithredu

<p>Dyddiad</p>	<p>Cam Gweithredu</p>	<p>Enw Swyddog Cyngor Sir Ddinbych</p>
-----------------------	------------------------------	---
